

Wrecsam a Sir y Fflint

**Aseiad Tai Fforddiadwy a Hyfywedd Datblygu
Ardoll Seilwaith Cymunedol**

Adroddiad Drafft Terfynol

Medi 2014



Dr Andrew Golland, BSc (Anrh), PhD, MRICS

Andrew Golland Associates

drajg@btopenworld.com

Tudalen gynnwys

Tudalen

Pennod 1	Cyflwyniad	3
Pennod 2	Methodoleg	8
Pennod 3	Profi Lefel Uchel: Preswyl	11
Pennod 4	Cyflenwad Safle	25
Pennod 5	Dadansoddi safleoedd llai	38
Pennod 6	Dadansoddiad o hyfywedd eiddo masnachol	43
Pennod 7	Meincnodi a hyfywedd	51
Pennod 8	Casgliadau	59
Atodiad 1	Nodiadau o'r gweithdy	62
Atodiad 2	Datganiad dull	72
Atodiad 3	Canlyniadau'r Profion Lefel Uchel	78
Atodiad 4	Gwerthusiadau Eiddo Masnachol	80
Atodiad 5	Enghraifft o werthusiad	105
	Rhestr Termau	114

1 CYFLWYNIAD

Adolygu nodau'r prosiect a'r cefndir i'r prosiect

1.1 Penododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint Andrew Golland Associates i gynnal Astudiaeth o Hyfywedd mewn perthynas â datblygu eu Cynlluniau Lleol. Y cyfarwyddyd a gafwyd oedd asesu effaith polisiau perthnasol y Cyngor ar hyfywedd y cynllun. Byddai'r sylw yn benodol ar dai fforddiadwy ac ar yr ASC.

1.2 Amcanion penodol y prosiect yw:

- Gosod targed tai fforddiadwy;
- Gosod trothwy tai fforddiadwy;
- Pennu Tâl ASC ar draws ystod o wahanol ddsbarthiadau defnydd fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Mae ASC yn ddewis polisi cymharol ddiweddar ac mae'r darpariaethau allweddol wedi'u gosod ar ddiwedd y bennod hon.

Cefndir y Polisi

1.3 Mae hyfywedd yn ystyriaeth bwysig ar lefel genedlaethol a lleol. Yn genedlaethol, mae Nodyn Cyngor Technegol 2 yn datgan: 'Wrth bennu trothwyon ar sail cynhwysedd safleoedd a thargedau ar gyfer safleoedd penodol dylai awdurdodau cynllunio lleol gydbwysu'r angen am dai fforddiadwy yn erbyn dichonoldeb safleoedd.... Dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd ystyried yr effaith ar gyflawni'r targed ar gyfer tai fforddiadwy ac ar yr amcan o greu cymunedau cynaliadwy ledled ardal y cynllun ac yn rhannau unigol ardal y cynllun.

1.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 6, Chwefror 2014) yn dweud 'Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu gynnwys targed ar gyfer tai fforddiadwy i'r awdurdod cyfan (wedi'i fynegi fel nifer y cartrefi) yn seiliedig ar Asesiad o'r Farchnad Tai Lleol. Rhaid iddynt hefyd nodi'r cyfraniadau y bydd disgwyl i'r camau yn y polisiau (er enghraifft trothwyon safle, targedau ar gyfer safleoedd penodol, symiau gohiriedig a safleoedd eithriedig tai fforddiadwy) eu gwneud i gwrdd â'r targed hwn. Dylai'r targed ystyried lefelau tybiedig y cyllid fydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy, gan gynnwys cymorthdaliadau

cyhoeddus, a'r lefel y gellir disgwyl yn realistig i'r datblygwr ei chyfrannu.

- 1.5 Mae'n rhaid i'r ASC hefyd barchu hyfywedd a chyflawniad. Ar y lefel leol mae'n rhaid i awdurdodau codi tâl anelu at sicrhau cydbwysedd priodol rhwng dymunoldeb derbyn cyllid o'r ASC i helpu i ddarparu (yn llwyr neu yn rhannol) y seilwaith y mae ei angen i gynnal y datblygiad a ffynonellau cyllid disgwylidig, goblygiadau adran 106 a chostau gweinyddol, ac effeithiau posibl (cyfan) yr ASC ar hyfywedd economaidd y datblygiad ar draws yr holl ardal.
- 1.6 Mae'r astudiaeth yn cael ei chynnal ar y cyd rhwng y ddau awdurdod gyda'r nod o osod polisiâu a ffioedd CIL sy'n rhesymegol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gytûn.

Sir y Fflint

- 1.7 Mae Polisi HSG10 CDU Sir y Fflint (a fabwysiadwyd Medi 2011) 'Tai Fforddiadwy o fewn Terfynau Setliad' yn nodi 'Lle mae angen wedi'i nodi am dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, bydd y Cyngor yn ystyried hyn fel ystyriaeth bwysig wrth asesu cynigion tai. Pan fo'r angen hwn yn bodoli, bydd y Cyngor yn trafod gyda datblygwyr i ddarparu 30% o dai fforddiadwy mewn cynlluniau addas neu briodol mewn terfynau setliad.
- 1.8 Mae'r Polisi yn Sir y Fflint yn ceisio darparu o leiaf 30% pellach o dai fforddiadwy ar safleoedd gyda throthwy lleiaf o 1.0 hectar neu 25 annedd. Mae hyn yn sylweddol llai na'r argymhellion a nodwyd yn yr Arolwg Anghenion Tai a gynhaliwyd yn 2005 'ond mae wedi'i gyfiawnhau gan yr angen am bolisi cytbwys sy'n ystyried newidiadau economaidd anochel ac anrhagweladwy a all gael effaith ddramatig ar hyfywdra'r cynllun datblygu'.
- 1.9 Mae'r Sir rŵan yn dechrau ar y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Wreccsam

- 1.10 Roedd y Cyngor eisoes wedi cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol yn 2011, ond oherwydd ystod o faterion gan gynnwys cyflenwad tai a thai fforddiadwy, cafodd y Cynllun ei dynnu yn ôl (Mawrth 2012).
- 1.11 Bu'r Cyngor yn dadlau dros darged tai fforddiadwy 30% yn y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd, ond roedd hyn wedi dibynnu ar ystod o fathau o safleoedd, gan gynnwys Cymdeithas Tai a datblygiadau annisgwyl. Canfu'r Arolygydd yn yr Adroddiad Rhagarweiniol y byddai darparu tai fforddiadwy yn dibynnu yn bennaf ar ddyraniadau, a rhai o'r rhain yn dibynnu ar gynnydd 10% mewn prisiau tai er mwyn cyflawni targed o 30%.
- 1.12 Mae'r sylfaen dystiolaeth rŵan yn cael ei adolygu a nod yr adroddiad hwn yw darparu asesiad cadarn o hyfywdra gyda'r nod o osod targedau tai fforddiadwy ac ASC. Mae Polisi H7 y CDU yn ceisio elfen o dai fforddiadwy ar safleoedd gyda chapasiti o 25 annedd neu fwy, gyda throthwy o 25% wedi'i nodi yn nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol rhif 28.

Ymchwil a wnaed ar gyfer yr astudiaeth hon

- 1.13 Roedd pedair prif elfen i'r ymchwil a wnaed wrth gwblhau'r astudiaeth hon:
- Trafodaethau gyda grŵp prosiect o swyddogion o'r Cyngor i helpu i lywio strwythur y dull ymchwil;
 - Dadansoddi gwybodaeth a gedwir gan yr awdurdod, gan gynnwys gwybodaeth sy'n disgrifio'r mathau o safleoedd sy'n cael eu cyflwyno;
 - Defnydd Pecyn Gwerthuso Datblygiad Cymru i ddadansoddi hyfywdra'r cynllun (ac wedi'i ddisgrifio mewn manylder mewn penodau dilynol o'r adroddiad hwn);
 - Cynhaliwyd gweithdy gyda datblygwyr, perchenogion tir, eu hasiantau a chynrychiolwyr o blith detholiad o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n weithredol yn y Fwrdeistref. Mae'r nodiadau o'r adborth a gafwyd yn y Gweithdai wedi'u nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Strwythur yr adroddiad ac amcanion bob pennod

- 1.14 Mae Pennod 2 yn nodi'r agwedd gyffredinol at yr asesiad hyfywdra. Mae hyn yn bwysig wrth sefydlu'r 'rheolau sylfaenol' ar gyfer gosod targedau a throthwy ar gyfer tai fforddiadwy, a gosod y ffioedd ASC.
- 1.15 Mae Pennod 3 yn nodi canlyniadau'r dadansoddiad gwerth gweddilliol. Mae'n gwneud hyn ar gyfer y ddau awdurdod ar gyfer datblygiad preswyl mewn ystod o ddwysedd ac is-farchnadoedd. Mae'r wybodaeth yn fanwl ac yn dangos sut y mae gwerth gweddilliol yn amrywio yn ôl lleoliad marchnad yn benodol. Y nod yw gosod gwerth gweddilliol, ond ar hyn o bryd, nid i ddod i gasgliad ar hyfywdra (mae hyn wedi'i drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad, yn bennaf ym Mhennod 8).
- 1.16 Mae pennod 4 yn edrych ar gyflenwad safle ar gyfer y sector preswyl. Nod y pennod hwn yw darparu cyd-destun ar gyfer yr awdurdodau lleol wrth fframio penderfyniad ynglŷn â lle i osod trothwyon tai fforddiadwy.
- 1.17 Mae Pennod 5 yn archwilio hyfywdra safleoedd preswyl bychan. Mae hyn yn bwysig, mewn cydweithrediad â Phennod 4, i helpu'r Cynghorau i benderfynu a ddylid gostwng trothwyon ar gyfer datblygiad tai fforddiadwy, ac i ba raddau.
- 1.19 Mae Pennod 6 yn nodi canlyniadau'r dadansoddiad cynllun eiddo masnachol. Mae'n profi ystod o ddefnydd masnachol ac yn dangos, fel gyda'r dadansoddiad preswyl ym Mhennod 3, y gwerthoedd gweddilliol.
- 1.19 Mae Pennod 7 yn dangos meincnodau hyfywdra yng nghyd-destun y gwerthoedd gweddilliol;
- 1.20 Mae Pennod 8 yn cyflwyno prif ganfyddiadau, casgliadau a dewisiadau'r adroddiad.

Darpariaethau cyffredinol Ardoll Seilwaith Cymunedol

- 1.21 Bydd angen i'r Astudiaeth Hyfywdra ASC sefydlu 'fframwaith' profi sy'n adlewyrchu cyd-destun cyfreithiol yr ASC, sy'n bennaf wedi'i nodi yn Ardoll Seilwaith Cymunedol DCLG: Trosolwg (Mai 2011).

Pwyntiau pwysig wrth fframio'r fframwaith dadansoddol ar gyfer Astudiaeth Hyfywdra yw:

- Dylid cynnal prawf hyfywdra ar bob math o ddatblygiad (tai, masnachol a defnydd arall). Mae hyn yn golygu bod y broses profi mewn egwyddor, yn helaeth;
- Mae'r ASC yn daladwy ar arwynebedd llawr, nid ar unedau. At hynny, mae'n daladwy ar gynnydd net mewn arwynebedd llawr. Gan fod nifer o ddatblygiadau'n golygu gwneud gwaith dymchwel, efallai mai dim ond taliadau isel a geir. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod astudiaethau sydd wedi eu gwneud hyd yma wedi ystyried y senario 'waethaf', gan eu bod yn seiliedig ar ardaloedd datblygu gros;
- Eithriadau i ffi ASC – prosiectau Tai Fforddiadwy ac Elusen. Nid yw hyn yn golygu nad oes yn rhaid profi Tai Fforddiadwy, dim ond na chymhwysir tâl ASC i'r elfen Tai Fforddiadwy wrth brofi enghreifftiau o gynlluniau daliadaeth gymysg;
- Gellir defnyddio ASC i ymdrin ag ystod o ddefnyddiau seilwaith: corfforol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly dylai'r fframwaith ar gyfer profi geisio profi senarios ASC uchelgeisiol pan fo hynny'n ymarferol.


2 METHODOLEG

Cyflwyniad

Hyfywedd – manau cychwyn


- 2.1 Rydym yn defnyddio model gwerthuso datblygiadau gweddilliol i asesu hyfywedd datblygiad. Mae hyn yn dynwared dull bron pob datblygwr wrth brynu tir. Mae'r model hwn yn tybio mai gwerth y safle fydd y gwahaniaeth rhwng beth mae'r cynllun yn ei gynhyrchu (refeniw'r cynllun) a'r hyn y bydd yn ei gostio i'w ddatblygu (costau adeiladu ac elw'r datblygwr). Gall y model ystyried effaith tai fforddiadwy a chyfraniadau eraill adran 106 neu ASC pan fo hynny'n cael ei brofi ar werth gweddilliol y cynllun.
- 2.2 Mae Ffigur 2.1 isod yn dangos ar ffurf diagram egwyddorion sylfaenol y dull hwn. Caiff costau'r cynllun eu didynnu o refeniw'r cynllun i gyrraedd gwerth gweddilliol gros. Mae costau'r cynllun yn tybio bod elw i'r datblygwr ac mae'r 'costau adeiladu' fel y dangosir yn y diagram yn cynnwys eitemau megis ffioedd proffesiynol, costau cyllido, ffioedd marchnata ac unrhyw orbenion sy'n cael eu hisgwyrddo gan y cwmni datblygu.

Ffigur 2.1 Hyfywedd, ASC a Thai Fforddiadwy



- 2.3 Y gwerth gweddilliol gros yw'r man cychwyn ar gyfer trafodaethau ynglŷn â lefel a chwmpas cyfraniadau Adran 106 neu ASC. Fel arfer bydd y cyfraniad ar ei fwyaf ar ffurf tai fforddiadwy ond bydd eitemau Adran 106 neu ASC eraill hefyd yn lleihau gwerth gweddilliol gros y safle. Unwaith y bydd cyfraniadau Adran 106/ASC wedi cael eu didynnu, mae hyn yn gadael gwerth gweddilliol net.
- 2.4 Dim ond un ffactor yw cyfrifo gwerth tebygol safle y rhoddwyd caniatâd cynllunio penodol iddo wrth benderfynu beth sy'n hyfyw.
- 2.5 Mae safle'n annhebygol iawn o fwrw ymlaen pan fo costau'r cynllun arfaethedig yn uwch na'r refeniw. Ond ni fyddai cael gwerth gweddilliol positif ynddo ei hun yn gwarantu y bydd y datblygiad yn digwydd. Bydd Gwerth Defnydd Presennol y safle, neu yn wir, werth defnydd amgen realistig ar gyfer safle hefyd yn ystyriaeth ym meddwl y perchennog tir wrth gyflwyno'r safle ac felly mae'n ffactor wrth benderfynu a yw safle'n debygol o gael ei gyflwyno er mwyn codi tai.
- 2.6 Mae Ffigur 2.2 yn dangos sut y mae hyn yn gweithio mewn egwyddor. Mae'r Gwerth Gweddilliol yn disgyn wrth i gyfraniadau cynllunio gynyddu. Yr ystyriaeth i'r perchennog tir fydd y pwynt pan fo'r Gwerth Gweddilliol yn llai na meincnod gwerth y tir neu'n hafal ag o.

Ffigur 2.2 Gwerth gweddilliol a sefyllfa perchennog y tir



- 2.7 Uwchlaw'r pwynt hwn bydd elw ar gyfer perchennog y tir. Mae maint yr elw hwnnw'n dibynnu ar Werth Defnydd Presennol y safle. Bydd rhai safleoedd yn safleoedd tir glas a rhai yn safleoedd tir llwyd. Fel arfer bydd gan safleoedd tir llwyd Werth Defnydd Presennol uwch na safleoedd tir glas ond nid yw hyn bob amser yn dilyn; er enghraifft pan fo tir llwyd wedi ei halogi'n arw.
- 2.8 Mewn rhai achosion, bydd yn briodol defnyddio Gwerth Defnydd Amgen. Trafodir yr amodau pan mai dyma'r achos yn Adolygiad Harman (2012) sy'n edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn ystyried hyfywedd wrth wneud cynlluniau.
- 2.9 Mae cwantwm elw'r perchennog tir wedi bod yn destun llawer o drafodaethau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn Lloegr, sy'n llywodraethu cynllunio a hyfywedd yn Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn caniatáu i berchnogion tir wneud elw 'cystadleuol', ond heb nodi faint yw hynny.
- 2.10 Bydd sut y pennir targedau tai fforddiadwy neu daliadau ASC yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys natur y cyflenwad tir, gwerth gweddilliol, polisiau awdurdodau cymharol a sefyllfa ehangach y cyflenwad tir. Nid oes unrhyw 'hafaliad' penodol sy'n pennu sut y dylid cyrraedd at unrhyw bolisi penodol.

3 DADANSODDIAD O HYFYWEDD PRESWYL

Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn ystyried hyfywedd cynlluniau preswyl sy'n cynnwys tai fforddiadwy. Mae'n darparu dealltwriaeth o sut y mae gwerth gweddilliol yn amrywio o dan wahanol amgylchiadau yn y farchnad dai, gwahanol effeithiau polisi a gwahanol ddwysedd a chymysgedd datblygu.
- 3.2 Mae'r bennod yn bwysig wrth gyfrifo gwerthoedd gweddilliol y pennir meincnodau gwerth tir yn eu herbyn. Trafodir y rhain ym Mhennod 7 ar feincnodi.
- 3.3 Bydd yn cael ei alw i gof yn y bennod flaenorol (2) y bydd asesu hyfywdra yn cael ei ystyried trwy gyfeirio at werth gweddilliol (a aseswyd yma ym Mhennod 3) a'r meincnodau gwerth tir a aseswyd ym Mhennod 7.


Ardaloedd Is-Farchnadoedd

- 3.4 Mae amrywiad prisiau tai yn cael effaith bwysig ar ddatblygu hyfywdra ac mae gwerth gweddilliol yn sensitif iawn i newidiadau neu wahaniaethau mewn prisiau tai.
- 3.5 Rydym wedi cymryd agwedd gyson at benderfynu ardaloedd is-farchnad yn unol ag astudiaethau eraill a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio data cyfanredol o godau post sector a phrisiau gwerthiant tai. Mae'r data wedi bod yn destun craffu pellach trwy'r broses gweithdy.
- 3.6 Mae'r holl astudiaethau wedi cynnal dadansoddiad o brisiau tai gan ddefnyddio data Cofrestrfa Tir EM er mwyn dynodi is-farchnadoedd. Mae'r prisiau tai sy'n berthnasol i'r is-farchnadoedd yn sail ar gyfer cyfres o werthoedd adeiladu newydd dangosol. Roedd yr is-farchnadoedd a phrisiau yn amodol ar graffu yn y Gweithdy Budd-ddeiliad. Mae Tabl 3.1 a 3.2 isod yn nodi'r is-farchnadoedd ar gyfer pob ardal LPA:

Tabl 3.1 Is-Farchnadoedd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Sub Market	PCSS	Settlement Hierarchy			
		First Tier	Second Tier	Third Tier	4th, 5th & 6th Tier
South Wrexham	LL11 1	Wrexham South East			
	LL13 7	Wrexham South West			
Rural East	SY13 2				Bettisfield
	LL13 0			Rhostyllen	Cross Lanes; Bangor is y Coed; Worthenbury; Overton
	LL13 9			Holt	Horseman's Green; Marchwiell; Hanmer; Bronington; Penley
	LL12 0			Rossett	Lavister; Burton
	SY14 7				Tallarn Green
North Wrexham & Gresford	LL12 8		Gresford		Bradley; Marford
	LL12 7	Wrexham North East			
	LL11 4	Wrexham North West			
Rural West, Chirk	LL14 5		Chirk		Pentre; Halton
	LL20 7			Glyn Ceiriog	Dolywern; Pontfadog; Ceiriog; Tregeiriog
	LL14 6		Ruabon		
North West settlements	LL11 5			Brymbo	Bwlchwyn
	LL11 2		Gwersyllt	Broughton	Rhosrobin
	LL11 6			New Broughton	Southsea
	LL11 3		Coedpoeth		Minera; Tanyfron; New Brighton; Gwynfryn
	LL12 9			Llay	Sydallt
LL14 4				Bersham	
Cefn Mawr & Rhos	LL14 2		Rhos	Johnstown; Penycae	
	LL14 3		Cefn Mawr	Acrefair	Froncysyllte; Trevor; Garth
	LL14 1		Rhos		


Map 3.1 Is-farchnadoedd Wrecsam



Tabl 3.2 Is-Farchnadoedd: Cyngor Sir y Fflint

Sub Market	PCs	Urban	Semi Urban/Villages	Small villages
Chester Hinterland	CH1 6			
	CH4 9			Higher Kinnerton
Ewloe	CH5 3	Ewloe	Hawarden, Pengffordd	Dobshell, Pengmngydd
Rural West Flintshire	LL18 6			Gwaengsgor; Trelawngd
	CH7 5			Nannerch; Rhydwmyn;; Ysceifiog; Afonwen; Cadole; Cilcain;
	CH8 8			Gorsedd; Pentre Halkyn; Halkyn; Lizwm; Caerwys; Brynford
	CH7 6		Northrop Hall; Northrop; Sgchdgn	Rhosemor
	CH7 4		Treuddgn; Leeswood	Nercwys; Pontybodkin; Coed Talon; Ponblyddgn
Mold	CH7 1	Mold	Gwergmngydd, Mngdda Isa, New Brighton	Gwernaffield, Pantgmwgn
Eastern settlements	CH7 3	Buckley (East)	Drury and Burntwood	
	CH7 2	Buckley (West)		Alltami
	CH4 0		Broughton	Bretton;
	LL12 9			Cymau
	LL11 5		Caergwle;Abermorddu	Llanfngydd; Ffrith
Queensferry & Connah's Quay	CH5 1	Shotton		
	CH5 2		Sandycroft; Mancot; Garden City; Pentre	
	CH5 4	Connah's Quay		
Flint, Holywell & Coast	CH6 5	Flint		Flint Mountain
	CH6 6		Bagillt;	
	CH8 7	Holywell	Carmel Holwag; Greenfield	Rhes y Cae
	CH8 9		Gronant; Maes Pennant	Gwespr; Llanasa; Talacre; Ffngnongrogw; Whitford; Trelogan; Rhewl Most

Map 3.2 Is-farchnadoedd Sir y Fflint



Profi rhagdybiaethau

- 3.7 Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ystod o brofion polisi. Yn benodol, targedau tai fforddiadwy o 5% i 40%.
- 3.8 Rydym wedi cynhyrchu gwerthoedd gweddilliol gros (na chyfraniadau tai fforddiadwy). Mewn geiriau eraill, nid yw'r profion wedi cynnwys effaith unrhyw gyfraniadau eraill (ac eithrio tai fforddiadwy). Felly, os oes cyfraniadau i dalu am eitemau sydd wedi'u cynnwys o fewn ASC neu Adran 106 confensiynol, bydd yn rhaid i'r rhain ddod o'r gwerth gweddilliol a gynhyrchir ar ôl i dai fforddiadwy gael effaith ar y cynllun.
- 3.9 Yn arferol, ac fel y trafodwyd ym Mhennod 2 yn benodol, bydd a yw cynllun yn hyfyw yn dibynnu ar y berthynas rhwng gwerth gweddilliol a gwerth defnydd presennol.
- 3.10 Caiff ystod lawn o gynlluniau eu profi yma. Mae dwyseddau o 20 Annedd fesul Hectar (afh), 30 afh, 40 afh a 50 afh wedi cael eu profi ar gyfer y ddwy ardal awdurdod lleol. Mae'r profion yn ymwneud â'r ystod lawn o ganrannau Tai Fforddiadwy, o 0% (cynllun Tai Marchnad 100%) i 40% fforddiadwy.
- 3.11 Dangosir y canlyniadau'n llawn (Gwerth Gweddilliol mewn £ miliwn) yn Atodiad 3 ar gyfer y ddau awdurdod a rhoddir sylw i bob dwysedd yn eu tro isod.

Gwerthoedd gweddilliol ar 20 annedd fesul hectar

Wrecsam

- 3.12 Mae Tabl 3.3 yn dangos gwerthoedd gweddilliol is-farchnad Wrecsam ar ddwysedd o 20 annedd fesul hectar. Mae'n dangos gwerthoedd gweddilliol ar ystod o dargedau tai fforddiadwy o 0% i 40%. Yn ôl y disgwyl, mae gwerth gweddilliol yn gostwng wrth i'r ganran o Dai Fforddiadwy mewn cynllun gynyddu.

Tabl 3.3 Gwerthoedd gweddilliol (£ miliwn fesul hectar) ar 20 Anedd fesul Hectar: Wrecsam

	0%	5%	10%	15%	20%	25%	30%	35%	40%
South Wrexham	£1.41	£1.33	£1.24	£1.16	£1.01	£0.99	£0.91	£0.83	£0.75
Rural East	£0.95	£0.89	£0.84	£0.77	£0.71	£0.65	£0.59	£0.53	£0.47
N. Wrex/Gresf'd	£0.78	£0.74	£0.68	£0.63	£0.58	£0.52	£0.48	£0.42	£0.37
Rural West & Chirk	£0.50	£0.46	£0.42	£0.39	£0.34	£0.31	£0.27	£0.23	£0.20
NW Settlements	£0.47	£0.42	£0.40	£0.35	£0.32	£0.28	£0.24	£0.21	£0.17
Cefn Mawr & Rhos	£0.08	£0.06	£0.05	£0.03	£0.01	£0.00	-£0.03	-£0.05	-£0.05

3.13 Beth sydd efallai fwyaf nodedig yw'r ystod o werthoedd gweddilliol. Ar begwn uchaf marchnad Wrecsam (De Wrecsam), mae'r gwerth gweddilliol yn £750,000 yr hectar ar gyfraniad Tai Fforddiadwy o 40%. Mewn gwrthgyferbyniad, mae gwerth gweddilliol ar waelod y farchnad (Cefn Mawr) yn fychan iawn, hyd yn oed gyda dim Tai Fforddiadwy.

3.14 Ar 20% Tai Fforddiadwy (enghraifft yn unig), mae gwerth gweddilliol yn £1.01 miliwn yr hectar yn Ne Wrecsam; £580,000 yr hectar yng Ngogledd Wrecsam a £320,000 yr hectar yn Setliadau'r Gogledd Orllewin.

Sir y Fflint

3.15 Mae Tabl 3.4 yn dangos gwerthoedd gweddilliol ar gyfer is-farchnad Sir i Fflint ar ddwysedd o 20 annedd fesul hectar.

Tabl 3.4 Gwerthoedd gweddilliol (£ miliwn fesul hectar) ar 20 Anedd fesul Hectar: Sir y Fflint

	0%	5%	10%	15%	20%	25%	30%	35%	40%
Chester Hinterland	£2.17	£2.05	£1.93	£1.80	£1.68	£1.56	£1.44	£1.32	£1.20
Ewloe	£1.35	£1.27	£1.19	£1.11	£1.04	£0.95	£0.86	£0.78	£0.71
Rural West Flintshire	£0.97	£0.91	£0.85	£0.78	£0.72	£0.66	£0.60	£0.54	£0.48
Mold	£0.67	£0.62	£0.58	£0.53	£0.49	£0.43	£0.39	£0.34	£0.30
Eastern Settlements	£0.58	£0.53	£0.49	£0.44	£0.41	£0.36	£0.32	£0.28	£0.23
Q'ferry & Connah's Q	£0.30	£0.27	£0.24	£0.22	£0.19	£0.16	£0.13	£0.10	£0.07
Flint, Holywell & Coast	£0.23	£0.20	£0.17	£0.15	£0.13	£0.10	£0.08	£0.05	£0.03

3.16 Fel gyda Wrecsam, mae amrywiad sylweddol yn y gwerth gweddilliol ar draws yr is-farchnadoedd. Yn wir, dylai cyfraniad Tai Fforddiadwy o 40% yn is-farchnad Cefnwlad Caer gynhyrchu gwerth gweddilliol o tua £1.2 miliwn yr hectar. Mewn gwrthgyferbyniad, mae cynllun gyda dim Tai Fforddiadwy yn is-farchnad y Fflint, Treffynnon a'r Arfordir yn debygol o gynhyrchu gwerth gweddilliol o tua £250,000 yr hectar.

3.17 Mae gwerth gweddilliol yn edrych ychydig yn fwy cadarn ar ben isaf y farchnad yn Sir y Fflint nag y mae yn Wrecsam.


3.18 Ar 20% Tai Fforddiadwy (enghraifft yn unig), mae gwerth gweddilliol yn £1.68 miliwn yr hecтар yng Nghefnwlad Caer; £490,000 yr hecтар yn yr Wyddgrug a £190,000 yr hecтар yn Queensferry a Chei Connah.

Gwerthoedd gweddilliol ar 30 annedd fesul hecтар

Wrecsam

3.19 Mae Ffigur 3.1 yn dangos gwerthoedd gweddilliol ar gyfer Wrecsam. Mae dangos y gwerthoedd gweddilliol ar ffurf graff yn dangos yn glir iawn pa mor amrywiol ydynt. Er enghraifft, er bod y gwerth gweddilliol tua £1 miliwn yr hecтар ar ben uchaf y farchnad gan ragdybio cyfraniad Tai Fforddiadwy o 40%, mae ond yn hanner hyn, yn 15% Tai Fforddiadwy yn Setliadau'r Gogledd Orllewin.

Ffigur 3.1 Gwerth gweddilliol ar 30 afh: Wrecsam




3.20 Ar 30 % Tai Fforddiadwy, mae gwerth gweddilliol yn £1.31 miliwn ar ben uchaf y farchnad, a £380,000 yr hecтар mewn is-farchnad gwerth is fel Setliadau'r Gogledd Orllewin ar yr un canran.

Sir y Fflint

3.21 Mae ffigur 3.2 yn dangos gwerthoedd gweddilliol ar gyfer Sir y Fflint ar 30 annedd fesul hecтар.

Ffigur 3.2 Gwerth gweddilliol ar 30 afh: Sir y Fflint



3.22 Mae'r siart yn dangos amrywiad sylweddol. Yn benodol, mae is-farchnad Cefnwlad Caer yn cynhyrchu gwerthoedd gweddilliol cadarn iawn, hyd yn oed ar ganrannau Tai Fforddiadwy uwch; ar 40%, mae'r gwerth gweddilliol yn bron i £1.75 miliwn yr hecтар. Mae'r lefel hon yn caniatáu lle ar gyfer taliadau ASC a/neu Adran 106 eraill.

3.23 Ar 20% Tai Fforddiadwy, mae gwerth gweddilliol yn £2.40 miliwn ar ben uchaf y farchnad, a £600,000 yr hecтар mewn is-farchnad gwerth is fel Setliadau'r Dwyrain.

3.24 Mae dwysedd cynyddol, yn ôl y disgwyl, yn arwain at rai effeithiau manteisiol ar gyfer gwerth gweddilliol o ran ffigurau cynyddol. Mae rhai enghreifftiau penodol wedi'u nodi isod:

- Wrecsam (De Wrecsam): Cynnydd mewn gwerth gweddilliol o 45% o 20 afh i 30 afh ar 40% Tai Fforddiadwy;
- Wrecsam (Gogledd Wrecsam/Gresford): Cynnydd mewn gwerth gweddilliol o 44% o 20 afh i 30 afh ar 30% Tai Fforddiadwy;
- Wrecsam (Setliadau'r gogledd orllewin): Cynnydd mewn gwerth gweddilliol o 47% o 20 afh i 30 afh ar 20% Tai Fforddiadwy;
- Sir y Fflint (Cefnwlad Caer): Cynnydd mewn gwerth gweddilliol o 45% o 20 afh i 30 afh ar 40% Tai Fforddiadwy;
- Sir y Fflint (yr Wyddgrug): Cynnydd mewn gwerth gweddilliol o 49% o 20 afh i 30 afh ar 30% Tai Fforddiadwy;

- Sir y Fflint (Queensferry a Cei Connah): Cynnydd mewn gwerth gweddilliol o 47% o 20 afh i 30 afh ar 20% Tai Fforddiadwy;

Gwerthoedd gweddilliol ar 40 annedd fesul hectar

Wrecsam

3.25 Nid yw dwysedd cynyddol yn newid y casgliad cyffredinol bod amrywiad sylweddol rhwng is-farchnadoedd. Mae hyn yn berthnasol i'r ddwy ardal awdurdod lleol. Mae Tabl 3.5 yn nodi'r gwerthoedd gweddilliol ar gyfer Wrecsam ar 40 annedd fesul hectar.

Tabl 3.5 Gwerthoedd gweddilliol (£ miliwn fesul hectar) ar 40 annedd fesul hectar: Wrecsam

	0%	5%	10%	15%	20%	25%	30%	35%	40%
South Wrexham	£2.37	£2.21	£2.12	£2.01	£1.88	£1.76	£1.64	£1.51	£1.40
Rural East	£1.59	£1.50	£1.43	£1.34	£1.26	£1.18	£1.10	£1.02	£0.93
N. Wrex/Gresf'd	£1.31	£1.24	£1.17	£1.11	£1.04	£0.96	£0.89	£0.83	£0.76
Rural West & Chirk	£0.83	£0.78	£0.74	£0.69	£0.65	£0.60	£0.56	£0.51	£0.47
NW Settlements	£0.77	£0.73	£0.68	£0.64	£0.60	£0.56	£0.51	£0.48	£0.43
Cefn Mawr & Rhos	£0.11	£0.10	£0.09	£0.08	£0.07	£0.06	£0.06	£0.05	£0.05

Sir y Fflint

3.26 Mae Tabl 3.6 yn nodi'r gwerthoedd gweddilliol ar gyfer is-farchnadoedd Sir y Fflint ar 40 annedd fesul hectar.

Tabl 3.6 Gwerthoedd gweddilliol (£ miliwn fesul hectar) ar 40 annedd fesul hectar: Sir y Fflint

	0%	5%	10%	15%	20%	25%	30%	35%	40%
Chester Hinterland	£3.65	£3.47	£3.28	£3.10	£2.91	£2.72	£2.54	£2.35	£2.16
Ewloe	£2.09	£1.97	£1.87	£1.76	£1.66	£1.55	£1.44	£1.33	£1.22
Rural West Flintshire	£1.62	£1.54	£1.46	£1.37	£1.29	£1.20	£1.12	£1.04	£0.95
Mold	£1.12	£1.05	£0.99	£0.94	£0.87	£0.82	£0.76	£0.70	£0.64
Eastern Settlements	£0.95	£0.89	£0.85	£0.80	£0.75	£0.69	£0.65	£0.59	£0.54
Q'ferry & Connah's Q	£0.49	£0.46	£0.43	£0.41	£0.38	£0.35	£0.32	£0.30	£0.26
Flint, Holywell & Coast	£0.35	£0.33	£0.32	£0.29	£0.27	£0.25	£0.23	£0.21	£0.19

Arsylwadau ar 40afh


3.27 Yn gyffredinol (os yw is-farchnad Cefn Mawr wedi'i eithrio), bydd gwerthoedd gweddilliol yn amrywio mwy ar draws ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint nag ar draws Wrecsam. Ar gyfraniad Tai Fforddiadwy o 20% (ac eithrio Cefn Mawr), bydd gwerthoedd gweddilliol 3.1 gwaith yn uwch yn Ne Wrecsam nag yn y Setliadau

Gogledd Orllewin. Ond, gan ragdybio'r un senario 20%), yn Sir y Fflint, mae'r ffactor yn 10.77. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ffaith bod y farchnad yn amrywio'n eang o Gaer i'r dwyrain a'r ardaloedd diwydiannol arfordirol i'r gogledd a'r gorllewin.


Gwerthoedd gweddilliol ar 50 annedd fesul hectar

- 3.28 Mae Tabl 3.3 yn dangos gwerthoedd gweddilliol fesul hectar ar gyfer pob is-farchnad awdurdod lleol ar ddwysedd o 50 afh.
- 3.29 Fel o'r blaen, mae patrwm neu ledaeniad y gwerthoedd yn parhau fel y maent ar gyfer dadansoddiadau dwysedd eraill. Eto, mae amrywiad sylweddol ar draws yr is-farchnadoedd, sy'n golygu y bydd angen agwedd sensitif at osod polisïau.
- 3.30 Mae gwerthoedd gweddilliol rŵan ar eu uchaf yn yr ardaloedd gwerth uchel, er yn yr ardaloedd gwerth isel, mae'n amlwg ar ddwysedd uwch nad yw hyfywdra wedi gwella (yn achos Wrecsam nid yw wedi newid mewn perthynas â'r senario 40afh)

Ffigur 3.3 Gwerthoedd gweddilliol fesul hectar) ar 50 afh Wrecsam




Sir y Fflint



Nodyn ar ddwysedd a chmysgedd

- 3.31 Mae'n bwysig nodi bod y canlyniadau wedi nodi (gweler hefyd Atodiad 3 sy'n cyflwyno'r canlyniadau yn llawn) bod y berthynas rhwng cmysgedd, dwysedd a lleoliad datblygiad yn gymhleth.
- 3.32 Mae ffigur 3.4 yn dangos gwerth gweddilliol ar ystod o wahanol ddwysedd ar is-farchnadoedd gwerth uwch ac is yn y ddwy ardal awdurdod lleol.

Ffigur 3.4 Gwerth gweddilliol ar wahanol ddwysedd



3.33 Mae'r siart yn dangos bod dwysedd cynyddol yn gyffredinol yn cynyddu gwerth gweddilliol. Ond, nid yw'r effaith yn gyson.

3.34 Yn gyffredinol, mae cynnydd o 20 afh i 30 afh yn cynhyrchu'r cynnydd mwyaf (er y byddai gwahanol ragdybiaethau ar gymysgedd datblygu yn cael effaith yma).

3.35 Hefyd, yn bwysig iawn, mae'r siart yn dangos mewn ardaloedd is-marchnad gwanach, bod cyfraith 'canlyniadau gostyngol' yn berthnasol, lle na fydd dwysedd uwch rhwng 40 a 50 afh yn dod â'r un cynnydd ag ar ddwysedd is.

Casgliadau

3.36 Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon yn dangos:

- Mae gwerth gweddilliol yn amrywio yn helaeth fesul lleoliad marchnad;
- Mae gwerth gweddilliol yn sensitif iawn i brisiau tai. Gall wahaniaethau bychan mewn prisiau wneud gwahaniaeth mawr mewn gwerth gweddilliol;
- Mae dwysedd a chymysgedd tai yn allweddol wrth bennu gwahaniaethau mewn gwerth gweddilliol. Yn gyffredinol mae cynnydd mewn dwysedd yn creu cynnydd mewn gwerth gweddilliol. Ond, mae hyn ond yn dilyn hyd at bwynt penodol, ac mae'r gwerth gweddilliol a gynhyrchir yn ganlyniad i'r rhyngweithio rhwng lleoliad a chymysgedd datblygu;

- Ni all y canfyddiadau yma ar eu pen eu hunain gyfrannu at sut y bydd polisiâu tai yn cael eu sefydlu. Mae angen i'r canfyddiadau yma gael eu hystyried yng nghyd-destun y pennod sy'n edrych ar feincnodau gwerth tir.

DRAFT

4 CYFLENWAD SAFLE

Cyflwyniad

- 4.1 I ddatblygu tai fforddiadwy a pholisïau ASC, mae'n ddefnyddiol deall mwy am broffil y cyflenwad safle. Yn benodol, edrych ar y cwestiwn o a oes cyfiawnhad dros leihau'r trothwy tai fforddiadwy presennol. Mae'n bwysig nodi yma bod gan Wrecsam a Sir y Fflint drothwy tai fforddiadwy sy'n 25 anedd. Mae hyn yn golygu ar hyn o bryd y bydd nifer o gynlluniau wedi'u heithrio o gyfraniadau tai fforddiadwy.
- 4.2 Mae deall mwy am natur y cyflenwad safle yn y ddau awdurdod yn bwysig ar gyfer polisi tai fforddiadwy, a hefyd ar gyfer codi tâl ASC. Mae hyn oherwydd bod safle'r trothwy tai fforddiadwy yn bwysig i'w hyfywdra. Mae'r safleoedd nad ydynt yn denu cyfraniad tai fforddiadwy, gyda phopeth arall yn gyfartal, yn fwy hyfyw na'r rhai sydd. Mae'r trothwy felly yn bwysig i sut y bydd yr ASC yn cael ei osod. Mewn rhai achlysuron, bydd yn gyfiawn i osod ASC uwch ar safleoedd llai (lle nad yw tai fforddiadwy yn berthnasol) nag ar safleoedd uwch lle mae'n berthnasol. I ddiwallu'r amcanion hyn, rwyf wedi dadansoddi'r data cyflenwad tai, gan ddefnyddio ystod o ffynonellau data'r Cyngor, yn enwedig yr Astudiaeth Argaeledd Tir Tai. Edrychir ar bob Awdurdod yn ei dro isod.

Wrecsam

- 4.3 Mae tabl 4.1 yn dangos proffil cyffredinol y cyflenwad safle ar gyfer Wrecsam. Mae'r data yn seiliedig ar ddwy ffynhonnell data: ar gyfer safleoedd mawr (10 uned a mwy) daw'r ffigurau o ganiatâd dros y tair blynedd ddiwethaf (ym mis Ionawr 2014) ac ar gyfer safleoedd llai (1 i 9 anedd) o ganiatâd ym mis Ebrill 2013. Darparwyd y ffigurau gan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi dweud ei bod yn bwysig nodi nad yw'r data yn y siartiau a'r tablau isod yn ystyried safleoedd cais y Cyngor trwy'r Cynllun Datblygu Lleol.


Tabl 4.1 Cyflenwad anheddau yn ôl maint cynllun: Wrecsam

Maint y Cynllun	Cyfanswm yr anheddau	Digwyddiad Cynllun	Cymedrol	% Anedd
1	165	165	1.0	4.24
2 i 3	190	83	2.3	4.89
4 i 5	164	37	4.4	4.22
6 i 10	186	24	7.8	4.78

11 i 15	186	14	13.3	4.78
16 i 25	379	18	21.1	9.75
26 i 50	108	3	36.0	2.78
50 i 100	481	4	120.3	12.37
101 i 200	296	2	148.0	7.61
201 i 300	1209	5	241.8	31.09
> 300	525	1	525.0	13.50
Cyfanswm	3889	356		100.00

- 4.4 Mae'r tabl yn dangos bod cyfran sylweddol o'r cyflenwad wedi dod o safleoedd mwy. Yn wir, mae 65% o'r holl gyflenwad wedi dod o safleoedd gyda capasiti o 50 annedd neu fwy. Ond, nid yw hyn yn ystyried unrhyw safleoedd strategol posibl a all gael eu cyflwyno o ganlyniad i ddyraniadau CDLl; mae ond yn darparu trosolwg o'r ffynonellau hanesyddol i'w cyflenwi er gwybodaeth.
- 4.5 Mae Ffigur 4.1 yn dangos yn ei dro y cyflenwad o anheddau yn ôl is-farchnad. Mae hyn yn dangos, er bod swm sylweddol o gyflenwad wedi'i ddatblygu yn y Setliadau Gogledd Orllewin (fel ardal is-farchnad gwanach), bu hefyd swm sylweddol o ddatblygiad mewn ardaloedd gwerth uchel fel De Wrecsam a'r Dwyrain Gwledig.

Ffigur 4.1 Cyflenwad cyffredinol yn ôl is-farchnad: Wrecsam



- 4.6 Mae tabl 4.2 isod yn dangos y nifer o anheddau yn ôl is-farchnad. Mae hyn yn dangos (fel uchod) bod swmp y cyflenwad wedi dod o ardal De Wrecsam a'r Setliadau Gogledd Orllewin. Yn yr ardaloedd hyn, mae cyflenwad wedi dibynnu fwy ar safleoedd mawr.
- 4.7 Mae rhai lleoliadau wedi dibynnu yn llawer mwy ar safleoedd bychan; yn enwedig y Dwyrain Gwledig. Yn yr is-farchnad honno, mae 64% o'r holl gyflenwad wedi dod o safleoedd gyda llai na 25 annedd. Mae hwn yn ardal gwerth cymharol uchel.


DRAFT

Tabl 4.2 Nifer o anheddau yn ôl is-farchnad: Wrexham

Scheme Size	South Wrexham	Rural East	N Wrexham & Gres	Rural West, Chirk	NW Settlements	Cefn & Rhos
1	3	40	13	29	44	36
2 to 3	2	54	4	24	47	59
4 to 5	5	60	8		36	55
6 to 10	16	87		7	53	23
11 to 15		39		24	53	70
16 to 25	73	47	16	17	189	37
26 to 50		81	60		27	
50 to 100	253			168		
101 to 200	192	104				
201 to 300	525				454	230
> 300					525	
Totals	1069	512	101	269	1428	510
Grand Total	3889					

- 4.8 Mae ffigur 4.2 yn dangos yr un data, ond wedi'i gyflwyno yn gronnus. Mae'r siart yn dangos bod rhai is-farchnadoedd eisoes wedi gweld cynnydd cymharol gyson mewn capasiti fesul maint safle; er enghraifft, y Dwyrain Gwledig. Mae gan eraill, er enghraifft, setliadau'r Gogledd Orllewin ddigon o gapasiti mewn safleoedd mawr.
- 4.9 Gall y siart (Ffigur 4.2) fod yn ddefnyddiol wrth feddwl am lle y gellir gosod trothwy tai fforddiadwy. Yn achos Setliadau'r Gogledd Orllewin er enghraifft, sy'n ardal gwerth cymharol isel, gyda dibynadwyedd hanesyddol uchel ar safleoedd mwy, efallai na fydd budd sylweddol mewn cael trothwy tai fforddiadwy isel.
- 4.10 Mewn gwrthgyferbyniad, yn rhai o'r ardaloedd gwledig a gwerth uwch, mae'n debygol y bydd mantais sylweddol mewn lleihau'r trothwy i gael swm uwch o dai fforddiadwy.

Ffigur 4.2 % Anheddau - maint y cynllun yn ôl Cyfanswm Cronnus: Wrecsam



DRAFT

Tabl 4.3 Canran safleoedd yn ôl Defnydd Presennol ac Is-farchnad: Wrexham

Types of Sites	S. Wrexham	Rural East	N. Wrex & Gres	Rural West, Chirk	NW Settlements	Cefn & Rhos
	Percentage of Dwellings					
Single Garden/Green Field Plot	0.09	4.88		0.74	0.14	
Single Brownfield		1.56	12.87	5.58	1.85	4.71
Change of Use/Conversion (Less than 10 Dw)	0.84	9.96	3.96	5.95	2.61	4.51
Change of Use/Conversion (More than 10 Dw)	8.33					
Barn/Farm Building Conversions		15.04	1.98	1.86	0.14	
Industrial/PDL (Less than 10 Dw)	0.84	10.74	5.94	2.23	4.05	23.73
Industrial/PDL (10 to 25 Dw)		7.81	15.84	15.24	10.92	5.69
Industrial/PDL (25 to 50 Dw)	6.83	16.02			9.96	
Industrial/PDL (More than 50 Dw)	36.67			30.86		
Pub sites (Less than 10 Dw)	0.65					
Pub sites (More than 10 Dw)		1.37				
Green Field (Less than 25 Dw)		4.88		5.95	3.09	16.27
Green Field (25 to 100 Dw)		7.42	59.41	31.60		
Green Field (101 to 200 Dw)	17.96	20.31				
Green Field (201 to 300 Dw)	27.78				31.18	45.10
Green Field (More than 300 Dw)					36.06	
Totals	100.00	100.00	100.00	100.00	100.00	100.00
Totals	1069	512	101	269	1456	510

Sir y Fflint

4.12 Cynhaliwyd dadansoddiad tebyg ar gyfer Sir y Fflint. Mae'r data a ddadansoddwyd o (safleoedd mawr) JHLAS 2013 (safleoedd a ganiateir) a safleoedd bychain (caniatâd yn Ebrill 2013). Yn Wrecsam, mae safleoedd ymgeisio a strategol wedi'u heithrio; fel y safle yng Nghroes Atti (637 annedd ar dir glas yn y Fflint) a thir i'r Gogledd Orllewin o Garden City (650 annedd ar dir glas yn bennaf).

4.13 Mae tabl 4.4 yn dangos proffil cyffredinol y cyflenwad safle ar gyfer Sir y Fflint. Mae'n dangos, yn Wrecsam, hyd yn oed pan fydd y ddau safle strategol wedi'u heithrio, bod yr awdurdod lleol yn dibynnu i raddau helaeth ar safleoedd mawr ar gyfer cyflenwad tai.


Tabl 4.4 Cyflenwad anheddau yn ôl maint cynllun: Sir y Fflint

Maint y Cynllun	Cyfanswm yr anheddau	Digwyddiad Cynllun	Cymedrol	% Annedd
1	199	199	1.0	4.0
2 i 3	213	92	2.3	4.3
4 i 5	122	28	4.4	2.5
6 i 10	259	33	7.8	5.2
11 i 15	138	10	13.8	2.8
16 i 25	391	17	23.0	7.9
26 i 50	911	24	38.0	18.4
51 i 100	1089	16	68.1	22.0
101 i 200	830	6	138.3	16.8
201 i 300	797	3	265.7	16.1
	4949	428		100

4.14 Yn wir, bydd llai na 20% o'r holl anheddau yn cael eu darparu ar safleoedd gyda capasiti o llai na 15 annedd.

4.15 Mae Ffigur 4.3 yn dangos dosbarthiad datblygiad anheddau ledled Sir y Fflint yn ôl is-farchnad. Mae hyn yn dangos darlun eithaf problemus gan fod cyfran sylweddol iawn o'r datblygiad cyfan yn yr ardaloedd is-farchnad gwanach. Bydd y swm mwyaf o ddatblygiad yn y Setliadau Dwyreiniol sydd â phrisiau tai cymharol isel. Mae swm sylweddol o ddatblygiad yn is-farchnad y Fflint, Treffynnon a'r Arfordir sydd â'r prisiau tai isaf yn yr ardal.

Ffigur 4.3 Cyflenwad cyffredinol yn ôl is-farchnad: Sir y Fflint



4.16 Mae tabl 4.5 yn dangos mewn mwy o fanylder o ble y daw'r cyflenwad tai yn ôl maint y cynllun ac yn ôl is-farchnad. Nid yw'n syndod bod hyn yn dangos bod gan rai o'r lleoliadau mwy gwledig (yr enghraifft orau yw ardal wledig Gorllewin Sir y Fflint) ganran uwch o gyflenwad o safleoedd llai. Yn achos ardal wledig Gorllewin Sir y Fflint, bydd bron i 30% o'r cyflenwad o safleoedd gyda llai na 15 annedd.

4.17 Ond, mae gan is-farchnad y Fflint, Treffynon a'r Arfordir gyfran cymharol uchel o anheddau o safleoedd llai (31%).

4.18 Nid yw'n ymddangos bod achos cryf ar gyfer trothwy tai fforddiadwy isel ar ben uchaf y farchnad, gan nad oes gan gyflenwad yn y lleoliadau hyn (sef Cefnwlod Caer ac Ewloe) gyflenwad uchel o dai o safleoedd llai.

Tabl 4.5 Nifer o anheddau yn ôl is-farchnad: Sir y Fflint

Scheme Size	Chester H'land	Ewloe	Rural West F'shire	Mold	Eastern S'ments	Q'Ferry & CQ	Flint, Holywell & Coast
1	5	7	46	24	48	21	48
2 to 3	2	10	31	21	57	37	57
4 to 5	4		27	13	26	21	32
6 to 10		20	40	7	41	45	114
11 to 15			27	27	30		55
16 to 25		24	23	64	100	89	69
26 to 50	82	118	181	48	117	70	298
51 to 100			258	210	360	87	180
101 to 200	128			122	162	299	120
201 to 300	280				517		
Totals	501	179	633	536	1458	669	973

- 4.19 Mae tabl 4.6 yn dangos canran safleoedd yn ôl defnydd presennol ac Is-farchnad yn Sir y Fflint. Mae hyn yn dangos cyfran sylweddol o gynlluniau plot sengl; plotiau gardd mewn sawl achos.
- 4.20 Mae gan rai lleoliadau, sef ardal wledig Gorllewin Sir y Fflint a'r Wyddgrug, lefel cymharol uchel o drawsnewidiadau.
- 4.21 Mae gan leoliadau fel y Setliadau Dwyreiniol gyfran uwch o dir glas mawr yn cael eu cyflwyno.
- 4.22 Mae datblygiad sylweddol yn cael ei gyflwyno ar dir llwyd yn yr is-farchnadoedd gwanach. Gall hwn fod yn broblemus i'w ddarparu.

Tabl 4.6 Canran safleoedd yn ôl Defnydd Presennol ac Is-farchnad: Sir y Fflint

Scheme Size	Chester H'land	Ewloe	Rural West F'shire	Mold	Eastern S'ments	Q'Ferry & CQ	Flint, Holywell
Single Garden/ Green Field Plot	0.40	3.35	4.27	1.49	1.99	1.49	2.36
Single Plot (PDL)	0.60	0.00	2.37	1.31	0.62	1.94	1.44
Change of Use/Conversion (< 10 Dw)	1.20	3.91	1.74	6.72	2.61	7.62	6.37
Change of Use/Conversion (> 10 Dw)		2.23	7.11	3.92		0.00	
Industrial/PDL (Less than 10 Dwellings)				0.37	3.09	2.84	20.97
Industrial/PDL (10 to 25 Dwellings)	9.58		22.12	5.60	6.04	11.06	
Industrial/PDL (25 to 50 Dwellings)			9.00	13.62	1.99	10.61	4.42
Industrial/PDL (More than 50 Dwellings)		13.41	15.17	61.94	22.63	0.00	19.63
Green Field (Less than 25 Dwellings)	6.79	77.09	38.23	5.04	6.58	2.84	6.89
Green Field (25 to 100 Dwellings)	25.55				27.98	16.89	37.92
Green Field (101 to 200 Dwellings)	55.89				11.11	44.69	
Green Field (201 to 300 Dwellings)					15.36	0.00	
Totals	501	179	633	536	1458	669	973
Totals	100.00	100.00	100.00	100.00	100.00	100.00	100.00

5 DADANSODDI SAFLEOEDD BYCHAN

Cyflwyniad

5.1 I hysbysu datblygiad polisi ar gyfer tai fforddiadwy ac ASC, mae'n ddefnyddiol edrych ar hyfywdra safleoedd bychan. Does dim ffordd berffaith o samplu dewis o safleoedd i'w profi. Ond, mae tablau 4.3 a 4.6 yn darparu sail dda ac yn dangos y ffynonellau cyflenwad hanesyddol ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint...

5.2 Ar sail proffil y cyflenwad safle ar gyfer y ddau awdurdod, mae'r mathau o safleoedd bychan wedi'u dewis i gael dadansoddiad pellach:

- Llain sengl (tir glas a thir llwyd);
- Trawsnewid graddfa fychan – 2 annedd – Ysgubor/Amaethyddol;
- Trawsnewid graddfa fychan – 3 annedd – Capel
- Datblygiad graddfa fychan – 5 annedd – tir glas a thir llwyd;

Datblygiad llain sengl

5.3 Dyma enghraifft syml, gan gymryd, er enghraifft, un tŷ pedair ystafell wely mewn ystod o sefyllfaoedd.

5.4 Mae detholiad o is-farchnadoedd wedi'u profi ar gyfer yr enghraifft hon, a'r rhai sy'n dilyn. Yr is-farchnadoedd a brofwyd ar gyfer Wrecsam yw:

- De Wrecsam ;
- Gogledd Wrecsam a Gresford;
- Setliadau'r Gogledd Orllewin; a
- Cefn Mawr a Rhos

Yr is-farchnadoedd a brofwyd ar gyfer Sir y Fflint yw:

- Ardal wledig gorllewin Sir y Fflint;
- Cefnwlod Caer
- Setliadau Dwyreiniol; a
- Fflint, Treffynnon a'r Arfordir.

5.5 Mae'r gwerthoedd gweddilliol wedi'u dangos yn Nhabl 5.1 isod. Mae hyn yn rhagdybio adeiladu tŷ ar wahân gyda phedair ystafell wely. Y ffigurau mewn du yw'r gwerthoedd llain a'r ffigurau mewn glas yw'r gwerthoedd gweddilliol fesul hectar.

Tabl 5.1 Gwerthoedd gweddilliol ar gyfer datblygiad annedd sengl

Single Dwelling					
	0%	10%	20%	30%	40%
Chester Hinterland	£167,000	£146,500	£126,000	£105,000	£84,000
	£3,340,000	£2,930,000	£2,520,000	£2,100,000	£1,680,000
South Wrexham	£111,000	£95,500	£81,000	£65,500	£51,000
	£2,220,000	£1,910,000	£1,620,000	£1,310,000	£1,020,000
Rural West Flintshire	£78,000	£66,500	£54,000	£42,500	£31,000
	£1,560,000	£1,330,000	£1,080,000	£850,000	£620,000
North Wrexham & Gresford	£65,000	£54,500	£44,000	£33,500	£23,000
	£1,300,000	£1,090,000	£880,000	£670,000	£460,000
Eastern settlements	£49,000	£40,500	£31,000	£21,500	£13,000
	£980,000	£810,000	£620,000	£430,000	£260,000
North West settlements	£41,000	£32,500	£25,000	£16,500	£8,000
	£820,000	£650,000	£500,000	£330,000	£160,000
Flint, Holywell & Coast	£23,000	£16,500	£11,000	£4,500	-£2,000
	£460,000	£330,000	£220,000	£90,000	-£40,000
Cefn Mawr & Rhos	£13,000	£7,500	£3,000	£2,500	-£8,000
	£260,000	£150,000	£60,000	£50,000	-£160,000

- 5.6 Fel gyda phrofi safle un hecтар, mae'r gwerthoedd gweddilliol yn amrywio yn helaeth yn unol ag ardal. Fel enghraifft, mae cyfraniad tai fforddiadwy 40% yng Nghefnwlad Caer yn cynhyrchu gwerth gweddilliol bron bedair gwaith cymaint â'r un anfforddiadwy yn y Fflint. Gellir gwneud cymhariaeth debyg rhwng y marchnadoedd gwerth uchel ac isel yn Wrecsam.
- 5.7 O ran hyfywdra, y broblem gyda'r math hwn o gynllun fydd y gwerth defnydd presennol. Mewn sawl achos, y gwerth defnydd presennol fydd y golled gwerth i'r eiddo a gedwir o adeilad neu ar gefnwlad. Does dim ffordd fanwl gywir o werthuso hyfywdra, ond gan ragdybio lleihad o 20% mewn gwerth i eiddo ar wahân £250,000, byddai hynny'n golygu bod gwerth gweddilliol ar gyfer adeilad newydd yn gorfod cyflawni mwy na £50,000.
- 5.8 Byddai hyn yn golygu mai ond cynlluniau yn yr ardaloedd gwerth uchel (Cefnwlad Caer, De Wrecsam, ac ardal wledig Gorllewin Sir y Fflint) fydd yn cyflawni cyfraniad tai fforddiadwy. Mewn lleoliadau fel Gogledd Wrecsam a Gresford, bydd cynlluniau yn ymylol ac yn yr ardaloedd gwerth is, ni fyddant yn hyfyw yn y rhan fwyaf o achosion.

Trawsnewid ar raddfa fach (2 annedd: ysgubor/gwledig)

- 5.9 Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyflwyno a'r cwestiwn yw a yw'n bosibl iddynt gynnal cyfraniadau tai fforddiadwy.
- 5.10 Mae'r cynlluniau hyn yn debygol o fod yn benodol iawn gyda chostau adeiladu cyffredinol uwch, ond prisiau gwerthu uwch hefyd.
- 5.11 Mae'r tabl isod (5.2) yn dangos y gwerthoedd gweddilliol ar gyfer trawsnewidiadau gwledig bychain.

Tabl 5.2 Gwerthoedd gweddilliol ar gyfer trawsnewid adeiladau gwledig - dwy annedd

Barn conversion: 2 Dwellings					
	0%	10%	20%	30%	40%
Chester Hinterland	£170,000	£137,000	£105,000	£72,000	£40,000
	£4,857,143	£3,914,286	£3,000,000	£2,057,143	£1,142,857
South Wrexham	£71,000	£49,000	£26,000	£3,000	-£20,000
	£2,028,571	£1,400,000	£742,857	£85,714	-£571,429
Rural West Flintshire	-£45,000	-£55,000	-£67,000	-£78,000	-£89,000
	-£1,285,714	-£1,571,429	-£1,914,286	-£2,228,571	-£2,542,857

- 5.12 Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar sicrhau bod gwerthoedd a chostau 30% yn uwch nag yn yr astudiaeth gwaelodlin. Nid yw hyn yn ragdybiaeth empirig o gwbl, ond yn fy mhrofiad i mae'n adlewyrchu'r ffaith bod pethau amrywiol yn debygol o fod yn uwch yn y cynlluniau hyn.
- 5.13 Mae'r gwerthoedd gweddilliol a ddangosir yn awgrymu mai dim ond yn yr is-farchnadoedd gwerth uchaf y mae'r rhain yn debygol o fod yn hyfyw o ran cyfraniad tai fforddiadwy. Oherwydd amrywiaeth y costau a gwerthoedd yn y cynlluniau hyn, yn fy marn i dylai'r Cyngor symud ymlaen yn ofalus.

Trawsnewid trefol ar raddfa fach - capel neu neuadd

- 5.14 Mae sawl trawsnewidiad trefol wedi cael eu cyflwyno. Mae'r data cynllunio yn awgrymu bod y rhain yn drawsnewidiadau o neuaddau neu gapeli i ddwy neu dair annedd. Mae'r rhain yn debygol o fod yn fflatiau yn y rhan fwyaf o achlysuron.

5.15 Dyma ddau gynllun a brofwyd yn yr is-farchnadoedd o ddau fflat un ystafell wely ac un fflat dwy ystafell wely. I adlewyrchu fy mhrofiad mewn asesu'r math hwn o gynllun, rwyf wedi cymryd y costau trawsnewid fel 70% o adeiladau newydd, a phrisiau fel 90% o adeiladau newydd.

Tabl 5.3 Gwerthoedd gweddilliol ar gyfer trawsnewid adeiladau trefol – tair annedd

Urban conversion: 3 Dwellings					
	0%	10%	20%	30%	40%
Chester Hinterland	£177,000	£167,000	£157,000	£147,000	£138,000
	£5,894,100	£5,561,100	£5,228,100	£4,895,100	£4,595,400
South Wrexham	£118,000	£114,000	£110,000	£107,000	£103,000
	£3,929,400	£3,796,200	£3,663,000	£3,563,100	£3,429,900
Rural West Flintshire	£83,000	£83,000	£82,000	£82,000	£81,000
	£2,763,900	£2,763,900	£2,730,600	£2,730,600	£2,697,300
North Wrexham & Gresford	£68,000	£67,500	£67,000	£66,500	£66,000
	£2,264,400	£2,247,750	£2,231,100	£2,214,450	£2,197,800
Eastern settlements	£52,000	£50,500	£48,000	£46,500	£45,000
	£1,731,600	£1,681,650	£1,598,400	£1,548,450	£1,498,500
North West settlements	£44,000	£43,000	£42,000	£41,000	£40,000
	£1,465,200	£1,431,900	£1,398,600	£1,365,300	£1,332,000
Flint, Holywell & Coast	£24,000	£24,000	£24,500	£25,000	£25,000
	£799,200	£799,200	£815,850	£832,500	£832,500
Cefn Mawr & Rhos	£12,000	£13,000	£13,000	£13,500	£14,000
	£399,600	£432,900	£432,900	£449,550	£466,200

5.16 Mae Tabl 3.5 yn dangos y gwerthoedd gweddilliol fel o'r blaen. Yn y pedwar is-farchnad isaf, mae gwerth gweddilliol yn llai na £50,000, ac mae hyn yn debygol o fod yn annigonol i gyflwyno cynlluniau oherwydd eu gwerth defnydd presennol. Dylid nodi bod gwerth gweddilliol yn yr ardal gwerth isaf yn debyg dim ots a ydynt yn cynnwys tai fforddiadwy neu fel arall. Mae hyn yn bennaf oherwydd dau ffactor: gwerthoedd marchnad isel a'r ffaith y bydd tai'r farchnad agored yn gofyn am bris uwch na thai fforddiadwy.

5.17 Nid yw hyn yn cynhyrchu achos ar gyfer tai fforddiadwy gan fod y gwerth gweddilliol yn isel i ddechrau.

5.18 Mae gwerthoedd gweddilliol ar ben uchaf y farchnad yn edrych yn hyfyw, a dylent ddarparu cyfraniadau tai fforddiadwy.

5.19 Ond, bydd lleoliad penodol yn chwarae rhan oherwydd mewn ardaloedd trefol dwysach efallai y bydd angen asesu'r cynlluniau hyn trwy gyfeirio at werth defnydd arall, er enghraifft, defnydd masnachol.

Datblygiad adeilad newydd ar raddfa fach – pum annedd

- 5.20 Mae datblygiad ar raddfa fach yn bwysig yn Wrecsam a Sir y Fflint. Yma, bydd cynllun o bum annedd yn cael ei brofi: tri teras tair ystafell wely a dwy annedd pedair ystafell wely.
- 5.21 Gellir datblygu'r math hwn o gynllun mewn cyd-destun trefol neu wledig ac ar dir a ddatblygwyd eisoes neu ar dir glas.
- 5.22 Mae Tabl 5.4 yn dangos gwerthoedd gweddilliol ar gyfer cynllun o bum annedd. Fel gyda chynlluniau bychan eraill, er bod y gwerthoedd gweddilliol ar sail fesul hectar yn gymharol gadarn ar gyfer yr ardaloedd marchnad gwannach, mae'r gwerthoedd absoliwt yn isel, ac yn isel iawn mewn rhai achosion.

Tabl 5.4 Gwerthoedd gweddilliol ar gyfer cynllun o bum annedd

Small site - five dwellings					
	0%	10%	20%	30%	40%
Chester Hinterland	£608,000	£541,500	£474,000	£406,500	£340,000
	£4,012,800	£3,573,900	£3,128,400	£2,682,900	£2,244,000
South Wrexham	£400,000	£353,500	£308,000	£261,500	£215,000
	£2,640,000	£2,333,100	£2,032,800	£1,725,900	£1,419,000
Rural West Flintshire	£280,000	£245,500	£211,000	£177,500	£143,000
	£1,848,000	£1,620,300	£1,392,600	£1,171,500	£943,800
North Wrexham & Gresford	£228,000	£199,500	£170,000	£141,500	£112,000
	£1,504,800	£1,316,700	£1,122,000	£933,900	£739,200
Eastern settlements	£170,000	£146,500	£124,000	£100,500	£77,000
	£1,122,000	£966,900	£818,400	£663,300	£508,200
North West settlements	£140,000	£119,500	£99,000	£78,500	£59,000
	£924,000	£788,700	£653,400	£518,100	£389,400
Flint, Holywell & Coast	£73,000	£59,500	£46,000	£32,500	£19,000
	£481,800	£392,700	£303,600	£214,500	£125,400
Cefn Mawr & Rhos	£33,000	£23,500	£14,000	£4,500	£-5,000
	£217,800	£155,100	£92,400	£29,700	£-33,000

Casgliadau

- 5.23 Mae'r dadansoddiad safleoedd bychain yma yn pwysleisio canfyddiadau profion lefel uchel i raddau helaeth. Hynny yw, mae'r lleoliad yn allweddol i sefydlu'r gwerth gweddilliol. Nid yw maint y cynllun mor bwysig a bydd safleoedd mawr mewn lleoliadau gwan nad ydynt yn hyfyw, a bydd safleoedd bychain mewn lleoliadau gwerth uwch sy'n hyfyw.

5.24 Mae hyfywdra, fel y trafodwyd yn flaenorol, yn amodol ar ddefnydd presennol a mathau penodol o gynlluniau yn debygol o fod yn fwy hyfyw nag eraill. Yma, fel arfer gall cynlluniau sy'n cynnwys trawsnewidiadau fod yn fwy heriol oherwydd er y gall costau adeiladu fod yn is, mae gwerthoedd defnydd presennol yn aml yn uwch, gan ganslo unrhyw 'arbedion' cymharol sydd wedi bod.

6 DADANSODDIAD O HYFYWEDD EIDDO MASNACHOL

